



LET'S
WALK TO
SCHOOL

CA1/Cyfnod Sylfaen/P1-3

Cerdded i'r ysgol drwy'r cenedlaethau



Hyd: Tua 60 munud
(ac eithrio'r estyniad
a'r adran gartref)



Nod

Gofyn i ddisgyblion ystyried y gwahanol brofiadau o gerdded i'r ysgol ar draws gwahanol genedlaethau, ac mewn gwledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Amcanion

Bydd y wers hon yn galluogi disgyblion i wneud y canlynol:

- Ystyriwch sut y gallai'r daith i'r ysgol ar gyfer cenedlaethau hŷn fod wedi bod yn wahanol i'w taith eu hunain i'r ysgol.
- Cymharwch y gwahaniaethau o'r gorffennol hyd nawr.
- Ewch ati i greu stori neu lun i ddangos y gwahaniaethau hyn.
- Ystyriwch sut y gall y daith i'r ysgol fod yn wahanol ar draws gwledydd (yn yr estyniad).

Adnoddau

- Taflen adnoddau 'Cerdded i'r ysgol' (ar gael ar ddiwedd y ffeil hon)
- Deunyddiau ysgrifennu a thynnu llun
- Bwrdd gwyn neu siart troi

Cysylltiadau i'r cwricwlwm

- **CYMRAEG/SAESNEG/IEITHOEDD** – gwrando ar stori, cofio ffeithiau, cymharu â'u profiadau eu hunain
- **HANES** – hanes lleol
- **ABGI/IECHYD A LLES** – ystyried safbwyntiau pobl eraill
- **DAEARYDDIAETH/ASTUDIAETHAU CYMDEITHASOL** – ardal leol

Paratoi

Mae pum stori am gerdded i'r ysgol ar gael yn y daflen adnoddau ar ddiwedd y ffeil hon.





1. I ddechrau'r wers, gofynnwch i'r plant sut y gwnaethon nhw deithio i'r ysgol heddiw. Gofynnwch gwestiynau fel:
 - Wnaethoch chi gerdded, mynd ar eich sgwter, beicio, parcio a cherdded neu ddod mewn car?
 - A ddaeth unrhyw un drwy ryw ddull arall?
 - Faint o amser mae'n ei gymryd i chi gyrraedd yr ysgol?
2. Gofynnwch gyda phwy y daethant i'r ysgol: brawd/chwiorydd, mam, tad, gofalwr, neiniau a theidiau. Dilynwch hyn drwy ofyn a ydynt bob amser yn teithio gyda'r person hwnnw neu a yw'n newid drwy gydol yr wythnos.
3. Beth wnaethon nhw sylwi wrth ddod i'r ysgol? Pa draffig wnaethon nhw ei weld? Wnaethon nhw gwrdd ag unrhyw ffrindiau ar y ffordd?
4. Anogwch nhw i feddwl am sut roedd eu rhieni/gofalwyr neu neiniau a theidiau yn teithio i'r ysgol pan oeddent yn blant? Yn eu barn nhw, beth allai fod wedi bod yn wahanol? Dylech lywio'r sgwrs i feddwl am sut y gallai'r traffig fod wedi bod, gyda phwy roedden nhw'n meddwl oedd eu rhieni/neiniau a theidiau yn teithio, a pha mor bell yr oeddent yn teithio.
5. Eglurwch i'r plant y byddan nhw'n gwrando ar rai straeon gan bobl sydd yr un oed â rhai o'u rhieni/neiniau a theidiau (yn dibynnu ar y stori a ddewiswyd) a sut roedden nhw'n teithio i'r ysgol?



Datblygiad

1. **Darllenwch un stori o'r daflen adnoddau ar ddiwedd y ddogfen hon i'r plant.** Gallwch ddewis pa stori fydd yn cael ei darllen ac mae croeso i chi ddarllen mwy nag un yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael. Fodd bynnag, bydd un stori yn gweithio i'r dasg hon.
2. **Gofynnwch i'r plant beth maen nhw'n ei gofio am y stori.** Dyma rai ysgogiadau:
 - Pryd aeth y person hwn i'r ysgol gynradd?
 - Ble roedden nhw'n byw?
 - Sut oedden nhw'n mynd i'r ysgol?
 - Gyda phwy oedden nhw'n teithio?
 - Pa mor hir oedd hi'n ei gymryd iddyn nhw?
 - Pa atgofion eraill oedd ganddynt o'r ysgol?
 - Beth fyddai'r plant yn ei hoffi neu'n ei gasáu pe bai'n rhaid iddynt wneud y daith hon?
3. **Cofnodwch yr atebion ar y bwrdd gwyn.**
4. **Eglurwch i'r dosbarth eich bod yn mynd i ddarllen y stori eto.** Tra byddwch chi'n darllen, gofynnwch iddyn nhw feddwl am yr hyn sydd yr un fath a beth sy'n wahanol o gymharu â sut maen nhw'n teithio i'r ysgol.



5. Gofynnwch i'r plant ddweud wrthyhych beth maen nhw wedi sylwi arno sy'n wahanol yn y stori i'w taith eu hunain i'r ysgol. Unwaith eto, defnyddiwch yr ysgogiadau uchod a chofnodwch ar y bwrdd gwyn i'r plant eu gweld. Gofynnwch i'r plant ddefnyddio brawddegau (a'u cofnodi ar fwrdd gwyn), e.e.

- Mae Lynsey yn cerdded i'r ysgol ac rwy'n mynd i'r ysgol mewn car.
- Beiciodd James, ond rwy'n dod i'r ysgol gyda fy nhad.
- Daeth Rachel i'r ysgol ar dractor, ond ni fyddai tractor yn ffitio yn y lle parcio yn ein hysgol ni!



6. Gofynnwch i'r plant gymryd un neu fwy o'r brawddegau ar y bwrdd gwyn a'u hysgrifennu yn eu llyfrau/ar bapur NEU ysgrifennu eu brawddeg eu hunain am y gwahaniaethau yn y stori a'u taith eu hunain. Os oes amser, gall plant ddarlunio eu hysgrifennu gyda llun.

Gyda phawb



1. Gwahoddwch ychydig o ddisgyblion i naill ai egluro'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd maen nhw wedi'u nodi neu ddarllen y gwahaniaethau a'r tebygrwydd maen nhw wedi'u hysgrifennu.

2. Gofynnwch i'r plant ddweud pa daith y byddai'n well ganddynt ei gwneud i'r ysgol a pham.

3. Gofynnwch i'r plant feddwl am sut roedd eu rhieni/gofalwyr a'u neiniau a theidiau yn teithio i'r ysgol pan oeddent yn iau. Sut fydden nhw'n darganfod mwy am eu teithiau? Pa gwestiynau fydden nhw'n eu gofyn?

Estyniad

Edrychwch ar un neu'r ddwy stori gan bobl a aeth i'r ysgol mewn gwahanol wledydd. Gan ddefnyddio'r un amlinelliad ag uchod, gallwch greu gwers arall yn seiliedig ar y llinell straeon hyn, neu ganolbwyntio ar stori o wlad benodol a defnyddio hynny fel man cychwyn i ymchwilio i'r wlad: yr hinsawdd, bywyd gwylt a llawer mwy.

NEU

Os oes gan eich ysgol gysylltiadau â chartref gofal, efallai y gellid rhannu'r gwaith a gynhrychir yn y wers gyda'r preswylwyr yn y cartref gofal gyda gwahoddiad iddynt ysgrifennu'n ôl gyda'u profiadau, gan ofyn yr un cwestiynau ag uchod.





1. Beth am wneud rhywfaint o ymchwilio i orffennol eich teulu eich hun. Allwch chi ofyn i'ch rhiant/gofalwr neu'ch neiniau a theidiau sut roedden nhw'n teithio i'r ysgol pan oeddent yn iau? Os oes angen i chi gael rhagor o wybodaeth ganddynt, gallwch ddefnyddio'r cwestiynau canlynol:
 - Allwch chi ddisgrifio eich ysgol? Oedd hi mewn pentref neu mewn dinas? Pa mor fawr oedd hi?
 - Sut oeddech chi'n teithio i'r ysgol?
 - Oeddech chi'n teithio gyda rhywun?
 - Pa mor bell oedd yn rhaid i chi deithio?
 - Faint o bobl eraill oedd yn teithio yn yr un ffordd â chi?
 - Beth oeddech chi'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi am eich taith i'r ysgol?
 - Oes gennych chi unrhyw atgofion cryf o deithio i'r ysgol?
2. Gan ddefnyddio'r atebion i'r cwestiynau uchod, allwch chi dynnu llun o sut beth oedd hi i'r person hwnnw deithio i'r ysgol?
3. A aeth eich rhieni/gofalwyr neu'ch neiniau a theidiau i'r un ysgol â chi? Os felly, beth sydd wedi newid am eich taith i'r ysgol? Beth sydd wedi aros yr un fath? Allwch chi ddweud wrth eich rhieni/gofalwyr neu neiniau a theidiau am eich taith i'r ysgol drwy ateb y cwestiynau uchod?



RHANNWCH GREADIGAETHAU EICH PLANT GYDA NI.

Tagiwch ni @LivingStreets neu anfon e-bost atom ar commsteam@livingstreets.org.uk

Ni yw Living Streets, yr elusen yn y DU ar gyfer cerdded bob dydd. Mae'r adnoddau dysgu hyn yn cefnogi cyfranogiad yn WOW - yr her blwyddyn o hyd i gerdded i'r ysgol.

Am ragor o wybodaeth ar WOW, ewch i www.livingstreets.org.uk/WOW

Cysylltu â ni: walktoschool@livingstreets.org.uk 020 7377 4900



Deunydd cefnogol

Adnodd straeon cerdded i'r ysgol



1. 1940au Richard - Lloegr

Es i i'r ysgol mewn ysgol bentref fach iawn o 1943–1948 yn Swydd Gaerlŷr. Dim ond dau ddosbarth a dau athro oedd yno. Roeddwn i'n teithio i'r ysgol ar fws ysgol oedd yn mynd drwy'r pentrefi cyfagos, gan godi fy nghyd-ddisgyblion i gyd. Dydw i ddim yn meddwl bod mam neu dad erioed wedi mynd â mi na'm casglu o'r ysgol – sy'n digwydd llawer mwy nawr. Roedden ni'n arfer cael canu ar y bws. Hefyd, nid oedd gennym unrhyw weithgareddau eraill i fynd iddynt ar ôl ysgol.

Yn ystod gaeaf '46-7, roeddem i ffwrdd o'r ysgol am chwe wythnos gan na allai traffig fynd drwodd oherwydd yr eira. Roedd hyn hefyd yn berthnasol i'n lorïau llaeth – roeddwn i'n byw ar fferm gyda gwartheg godro. Ac oherwydd na allai'r lorïau fynd drwodd i gymryd y llaeth, roedden ni'n cadw llaeth ym mhob cynhwysydd yn y tŷ, gan gynnwys y bath!

Un diwrnod yn yr eira, penderfynodd pump ohonom gerdded i'r ysgol, yn araf, gan gyrraedd amser cinio. Ar ôl cael cinio, awgrymodd yr athro ein bod yn mynd adref, ac fe wnaethom hynny (yn llawer cynt)!

2. 1950s/60au Lorraine - New Delhi, India

Fe es i ysgol gwfaint yn New Delhi. Hen adeilad oedd o, nid nepell o ganol y ddinas, ac roedd yr ysgol ar gyfer plant o bob oed. Roedd tua 300 o ddisgyblion. Roeddwn i'n mynd i'r ysgol ar fws ysgol gyda disgyblion eraill a hebryngwr i gadw llygad arnom. Roedd y daith tua 10 milltir ac roedd yn teimlo fel ei bod yn cymryd amser hir iawn. Cofiaf fod llawer o draffig, yn enwedig drwy'r ddinas. Roedd hi bob amser yn boeth iawn ar y bws. Cofiaf edrych ar adeiladau enfawr y llywodraeth ar y llwybr bysiau. Dydw i ddim yn meddwl bod yn rhaid i lawer o ddisgyblion deithio mor bell i'r ysgol y dyddiau hyn.



3. 1970au Rachel - Lloegr

Fe es i'r un ysgol gynradd â'm tad, mewn ysgol bentref fach yn Swydd Gaerlŷr. Roedd yn cynnwys hen adeilad gyda dwy ystafell ddosbarth ar gyfer yr iau ac adeilad newydd ar wahân ar gyfer y babanod. Nid oedd adeilad y babanod yn bodoli pan aeth fy nhad i'r ysgol hon. Roedd yn ysgol fechan o 60 o ddisgyblion gyda thri athro, ac un ohonynt oedd y Pennaeth. Roedd hi'n berchen ar gi smwt a arferai eistedd yn nhu blaen y dosbarth.

Roeddwn i'n teithio i'r ysgol ar fws ysgol, gan godi fy nghyd-ddisgyblion ar y ffordd o'r pentrefi a ffermydd eraill. Roedd y daith tua phedair milltir ac yn cymryd tua hanner awr. Roedd y daith yn cynnwys lonydd gwledig gyda thractorau a ffordd A brysur gyda cheir a lorïau. Roeddwn i'n hoffi siarad â fy ffrindiau ar y ffordd i'r ysgol ac roedden ni'n arfer canu caneuon, ac enw ein gyrrwr bws oedd Lilly. Cefais fy magu ar fferm, felly pan oedd hi'n bwrw eira a'r bws ysgol yn methu fy nghyrraedd, arferai fy nhad fynd â mi i'r ysgol gyda thractor!

4. 1980au Lynsey - Lloegr

Es i i'r ysgol mewn pentref ar gyrion Caer. Roedd fy ysgol wedi'i gwneud allan o fetel rhychog, wedi'i ail-bwrpasu o sied awyrennau ar ôl y rhyfel. Roedd tua 150 o blant yn yr ysgol ac roedd gennym gae ysgol a phwll ar gyfer trochi yn y pwll.

Pan oeddwn i'n iau, roeddwn i'n cerdded i'r ysgol gyda fy mam ac yna'n ddiweddarach ar fy mhen fy hun, er ar ddiwrnodau cerddoriaeth doeddwn i ddim oherwydd fy mod i'n chwarae'r cello, ac roedd yn rhy drwm i mi ei gario. Roeddwn i'n cerdded am lai na milltir, ond roedd yn ymddangos yn hirach ar y ffordd i'r ysgol gan ei fod i fyny'r bryn yr holl ffordd. Cymerodd 15 munud oni bai ei fod yn dymor concyrs.

Roedd y brif ffordd yr oeddwn i'n cerdded ar ei hyd yn ffordd weddol brysur. Roedd ysgol arall ar y ffordd, felly roedd llawer o bobl yn cerdded bob amser. Roeddwn i wir yn hoffi fy nhaith i'r ysgol oherwydd roeddwn wrth fy modd yn mynd i'r ysgol. Roeddwn hefyd wrth fy modd yn casglu concyrs ar ddechrau'r hydref. Roeddwn i'n arfer bod yn barod i gerdded i'r ysgol yn gynnar iawn er mwyn i mi allu cyrraedd y concyrs cyn unrhyw un arall. Dwi hefyd yn cofio bod ag obsesiwn gydag esgidiau sglefrio am gyfnod, ac weithiau roeddwn i'n sglefrio i'r ysgol tra bod fy mam yn cario fy esgidiau!

5. 1990au James - Awstralia

Fe es i'r ysgol gynradd yn y 1990au mewn pentref bach ger Perth, Awstralia. Roedd yr ysgol yn cynnwys tua chwe adeilad ac roedd popeth yn eithaf agored. Nid oedd iard chwarae, ond roedd wrth ymyl parc ac roedd ardal y ffreutur yn yr awyr agored.

Roeddwn i'n cerdded i'r ysgol gyda fy chwaer hŷn ac yna pan es i ychydig yn hŷn, roeddwn i'n beicio ar fy mhen fy hun. Cymerodd 5-10 munud i mi gan mai dim ond tua 300 metr o'r parc yr oeddwn yn byw. Roedd y ffordd yr oeddwn i'n cerdded ar ei hyd wrth ymyl ardal wyllt o'r enw Periwinkle Bush. Roedd yn ffordd dawel. Roedd rhan olaf fy nhaith drwy barc. Doedd dim ffens o gwmpas yr ysgol felly gallwn amrywio fy llwybr ychydig yn dibynnu ar sut roeddwn i'n teimlo. Roeddwn wrth fy modd bod fy nhaith i'r ysgol mor gyflym.

Yn yr haf, roedd yn rhaid i chi edrych i ble'r oeddech chi'n mynd oherwydd byddech chi'n dod o hyd i nadroedd ar y llwybr. Doedden nhw ddim yn rhai peryglus iawn, ond byddai'n dal yn boenus. Ar adegau eraill o'r flwyddyn, byddech yn cael eich cyrchu gan bïod. Unwaith, fe wnaeth pïoden wneud twll yn fy helmed!

